


# Y FAM TERESA

**Y Fam Teresa**
Rhannodd drallod y tlodion – yn eu byd,
Rhannodd boen y cleifion;
Rhoddi help oedd mawredd hon
Â golud euraid calon.

© Arthur Thomas

## Blynyddoedd cynnar

Ganwyd Agnes Gonxha Bojaxhui ar Awst 27, 1910 yn Iwgoslafia. Wedi colli ei thad a hithau ond yn wyth mlwydd oed, danfonodd ei mam hi i dderbyn ei haddysg mewn ysgol Gatholig. Pan oedd yn ddeuddeg oed cyfarfu â ficer a roddodd wybodaeth iddi am weithio fel cenhades, a thaniwyd ei brwdfrydedd.

Y FAM TERESA

## Mynd yn lleian

Pan gyrhaeddodd ei phenblwydd yn 18 oed, fe benderfynodd Agnes adael ei theulu yn Kosovo a pharatoi i weithio fel cenhades gyda'r Chwiorydd Loreto. Aeth i Iwerddon i ddysgu siarad Saesneg yn gyntaf, gan mai honno oedd yr iaith fyddai'r lleianod yn ei defnyddio yn yr India er mwyn addysgu'r plant. Yna, aeth allan i'r India i weithio fel athrawes Ddaearyddiaeth. Ni welodd ei mam a'i chwaer fyth eto a bu'n dysgu yno am ddeunaw mlynedd. Yn 1930 newidodd ei henw i Teresa, ar ôl nawddsant cenadesau.

## Blynyddoedd diweddarach

Yn 1948 aeth i astudio gofal iechyd ac yna yn 1952, sefydlodd y Fam Teresa gartref i gysuro pobl a oedd yn marw ac yn dioddef, mewn hen deml Hindŵaidd yn ninas dlawd a phoblog Calcutta. Gelwir y sefydliad yma yn *Kalighat Home for the Dying*.

Roedd yn hynod o fentrus a gweithgar dros eraill. Er nad oedd ganddi ddimai goch y delyn sefydlodd gartref i blant amddifad. Dangosodd ei dewrder trwy helpu pobl oedd yn dioddef




o'r gwahanglwyf a sefydlu clinig o'r enw Nirma Hriday iddynt. Gallasai hi fod wedi dal y clefyd a marw. Treuliodd ei bywyd yn creu rhwydwaith enfawr o gartrefi gofal a dulliau o edrych ar ôl pobl anghennus.

### Blynyddoedd olaf

Dechreuodd y Fam Teresa gael problemau gyda'i chalon pan oedd yn bedwar ugain oed ond er gwaethaf ei gwendid parhaodd i weithio a theithio. Dywedodd unwaith, 'Mae fy noctoriaid yn swnian wrthyf byth a beunydd am roi'r gorau i deithio ac yn dweud y dylwn orffwyso ond mae cymaint o bethau i'w gwneud. Dydy bywyd ddim gwerth ei fyw os nad ydych yn ei fyw er mwyn eraill.' Bu farw ar Fedi 5ed, 1997. Wedi hynny, am ei gweithredoedd dyngarol yn ystod ei bywyd, ac am y barnwyd ei bod wedi cyflawni gwyrth, rhoddwyd y teitl 'Bendigaid' iddi hi gan y Pab Ioan Pawl II.

**RHESTR O'I GWOBRAU**

- 1962 – Gwobr Pandra Shri am 'wasanaeth anghyffredin'
- 1971 – Gwobr Heddwch y Pab John XXIII
- 1971 – Gwobr Ryngwladol John F. Kennedy
- 1973 – Gwobr Templeton am ddatblygu crefydd
- 1979 – Gwobr Heddwch Nobel 'am ei gwaith yn yr ymdrech yn erbyn tlodi a'i chefnogaeth i heddwch'
- 1992 Gwobr UNESCO am Addysg Heddwch

- Pan fyddai'n teithio mewn awyren byddai'n casglu sbarion bwyd a'u rhoi i'r newynog.
- Y lleian fyrraf yn y lleiandy – 5 troedfedd!
- Perswadiodd Arlywydd America ar y pryd, Ronald Reagan, i yrru bwyd i Ethiopia pan oedd newyn yno